



Polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y Coleg

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb: 22/03/2023

Asesiad o Effaith ar y Gymraeg: 22/03/2023

Cymeradwywyd gan: CLT

Haen: 3

Awdur:

Dyddiad cymeradwyo: 22/03/2023

Dyddiad Adolygu: 22/03/2024

Cyhoeddwyd ar: Y wefan
Mewnruwyd
Porth y Dysgwr

Ar gael mewn ffont mawr a fformatau eraill ar gais.

Mae'r polisi hwn ar gael yn Saesneg.

Diben ac Amcanion

1. Cwmpas
2. Darparu Gwasanaethau
3. Gweithrediadau Mewnol
4. Llunio Polisiâu
5. Monitro ac Adrodd
6. Delio â Materion Ychwanegol

Diben ac Amcanion

Mae Coleg Gwent yn gwbl gefnogol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Nod y polisi hwn yw cynnig canllawiau i'r holl staff ynghylch defnyddio'r Gymraeg yn y Coleg, gan sicrhau yr un pryd y bydd y Coleg yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Safonau'r Gymraeg yn nodi sut y disgwylir i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg yn eu busnes o ddydd i ddydd ac wrth ddarparu eu gwasanaethau.

Mae gweithredu'r polisi hwn yn cyd-fynd â gofynion Safon 105 Safonau'r Gymraeg. Gŵyr y Coleg fod ganddo rôl allweddol o ran targed Llywodraeth Cymru, sef creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu faint o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol. <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>

Mae amcanion y polisi yn cynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth o'r modd y caiff y Gymraeg ei defnyddio a'i hyrwyddo yn y coleg
- Hwyluso gweithgareddau ymwybyddiaeth ddiwylliannol, hanesyddol ac economaidd-gymdeithasol yng Nghymru
- Cynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y coleg
- Annog y staff i ddysgu'r Gymraeg a gwella'u sgiliau Cymraeg, a rhoi pob cyfle iddynt wneud hynny

Ymrwymadau strategol Coleg Gwent (ochr yn ochr â Safonau'r Gymraeg)

Yn ychwanegol at fodloni'r gofynion statudol sy'n perthyn i Safonau'r Gymraeg, mae'r Coleg wedi datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithrwydd sy'n sail i'r nodau a'r amcanion cyffredinol a nodir yn y ddogfen *Tuag at 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg - Cynllun Gweithredu Cyfrwng Cymraeg ar gyfer Addysg Bellach a Phrentisiaethau* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1. Cwmpas

- 1.1 Bydd y polisi hwn yn sylfaen gadarn i'r gwasanaethau Cymraeg y mae'r Coleg yn eu darparu i'w staff, i'w fyfyrwyr ac i'r cyhoedd, a bydd yn ategu gofynion cydymffurfio Safonau'r Gymraeg.
- 1.2 Bydd y Coleg yn parhau i weithredu ei amcanion staffio yn y Strategaeth Dwyieithrwydd a bydd yn cadw cofnod o lefelau iaith y staff, gan roi cyfle i'r staff ddiweddarau cofnodion DPP wrth iddynt feithrin eu sgiliau Cymraeg. Bydd y Coleg yn cadw cofnod o ddewis iaith y staff ar y system **ADNODDAU DYNOL (AD) FEWNOL**.
- 1.3 Bydd gan holl Reolwyr y Coleg ddealltwriaeth dda o ofynion Safonau'r Gymraeg a byddant â rôl ymarferol o ran hyrwyddo ymrwymiadau'r Polisi hwn wrth hybu'r arfer o ddefnyddio Cymraeg yn y gweithle.
- 1.4 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Safonau y mae'n ofynnol i'r Coleg gydymffurfio â nhw mewn perthynas â'r Gymraeg ar borth y staff a hefyd ar wefan y coleg.
- 1.5 Dylid anfon unrhyw ymholiadau'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg neu'r polisi hwn at **DÎM SAFONAU'R GYMRAEG**.

2. Darparu Gwasanaethau

2.1 Darparu Gwasanaethau: Gohebiaeth Ysgrifenedig

- 2.1.1 Mae'r Coleg yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg gan y staff, y myfyrwyr a'r cyhoedd. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg. Bydd pob gohebiaeth a dderbynnir, boed hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn cael ei hateb o fewn yr un cyfnod amser.
- 2.1.2 Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd mae'r Coleg yn gwneud cofnod o ddewis iaith y staff, y myfyrwyr a'u rhieni/gwarcheidwaid. Bydd y rhai hynny sydd wedi dewis y Gymraeg yn derbyn pob gohebiaeth yn y Gymraeg yn y dyfodol.
- 2.1.3 Caiff cylchlythyrau, llythyrau ac e-byst safonol/generig eu hysgrifennu'n ddwyieithog.
- 2.1.4 Caiff e-byst mewnol a ddsberthir i'r staff eu hysgrifennu'n ddwyieithog. Yr unig eithriad yw negeseuon argyfwng yn ymwneud ag iechyd a diogelwch y staff a/neu'r dysgwyr.
- 2.1.5 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i sicrhau na fydd gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn anfon at oedi cyn cael ateb.

2.2 Darparu Gwasanaethau: Gwasanaethau Ffôn

- 2.2.1 Caiff yr holl alwadau ffôn eu hateb gyda chyfarfodiad dwyieithog. Mae gan y coleg system ar waith lle bydd unrhyw alwad sy'n dewis y llinell "Gymraeg" yn cael ei throsglwyddo'n awtomatig i aelod o staff sy'n siaradwr Cymraeg.
- 2.2.2 Mae negeseuon peiriannau ateb yn cynnwys neges ddwyieithog fer, ac mae croeso i'r rhai sy'n ffonio adael neges Gymraeg neu neges Saesneg. Bydd yr ymateb i neges y galwr yn newis iaith y galwr.
- 2.2.3 Mae'r Coleg wedi ymrwymo'n llwyr i gynyddu nifer y staff Cymraeg eu hiaith mewn rolau sy'n delio â'r cyhoedd. Wrth i rolau o'r fath ddod yn wag, byddant yn cael eu hysbysebu fel swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol.

2.3 Darparu Gwasanaethau: Cyfarfodydd, Digwyddiadau Agored a Chyflwyniadau

- 2.3.1 Cyfarfodydd ag unigolion.

Mae gan y staff hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd yn ymwneud â'r canlynol, a bydd y Coleg yn gwneud y trefniadau priodol drwy gydol y broses:

- Rheoli Perfformiad
- Cwynion
- Materion disgyblu
- Ymgynghoriadau ynghylch ad-drefnu adran neu wasanaeth

· Cyfweiliadau swyddi

Os na all y rhai sy'n gyfrifol am gynnal y cyfarfodydd wneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd trefniadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau y bydd modd i aelod o staff Cymraeg ei iaith wneud hynny. Pan fo hyn yn amhosibl, neu mewn sefyllfaoedd pan fyddai hyn yn amhriodol, bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu. Y Tîm AD a fydd yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

2.3.2 Cyfarfodydd a gynhelir ledled y Coleg a chyfarfodydd grŵp eraill

Os anfonir gwahoddiad at yr holl staff ar gyfer mynychu cyfarfod penodol neu gyfarfod arbennig (e.e. cyfarfodydd ymgynghori), bydd gan y staff hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd hynny. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu i hwyluso hyn. Swyddfa'r Pennaeth a fydd yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

2.3.3 Bydd pob cyfarfod cyhoeddus yn cael ei hysbysebu'n ddwyieithog.

2.3.3 Bydd y Coleg yn sicrhau bod aelodau o staff ar gael sy'n gallu cyfarch yn ddwyieithog.

2.3.4 Bydd y Coleg yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus a mewnlol os bydd 10% neu fwy o'r mynychwyr wedi mynegi dymuniad i gymryd rhan yn y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.3.5 Bydd rheolwyr a staff y coleg yn gwneud pob ymdrech i ddefnyddio cyflwyniadau dwyieithog a Chymraeg achlysurol ym mhob cyfarfod mewnlol a chyhoeddus.

2.3.6 Bydd rheolwyr a staff y coleg yn defnyddio penawdau ac is-benawdau dwyieithog ym mhob cyfarfod mewnlol a chyhoeddus.

2.3.7 Pan fo unigolyn wedi nodi ei ddymuniad i gyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y Coleg yn sicrhau bod aelod o staff Cymraeg ei iaith yn bresennol i hwyluso hynny.

2.3.8 Bydd holiaduron a/neu arolygon sydd wedi'u hanelu at y staff, y myfyrwyr neu'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog, neu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yr ymatebwyr yn parhau i fod yn ddienw, pa un a fyddant yn ymateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

2.4 Darparu Gwasanaethau: Cyfathrebu Electronig

2.4.1 Mae croeso i bobl sy'n dymuno cyfathrebu trwy e-bost ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd y Coleg yn ymateb yn iaith y neges wreiddiol a bydd yn sicrhau na fydd unrhyw oedi cyn ymateb.

2.4.2 Mae llofnodion e-bost y staff yn ddwyieithog a chaiff staff Cymraeg eu hiaith eu hannog i arddangos y logo "Cymraeg Gwaith" er mwyn dangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

2.5.2 Wrth lunio negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa', disgwylir i'r staff ddefnyddio'r canllawiau ar lunio negeseuon dwyieithog a gyhoeddwyd ar Borth y staff.

2.5 Darparu Gwasanaethau: Brandio a Hunaniaeth Gyhoeddus

- 2.5.1 Mae'r Coleg yn cyhoeddi ei holl ddeunyddiau corfforaethol yn ddwyieithog.
- 2.5.2 Mae hunaniaeth gorfforaethol y Coleg yn ddwyieithog.
- 2.5.3 Mae'r Coleg yn sicrhau y bydd fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn ei holl ddeunyddiau corfforaethol, yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffurflenni, taflenni, poster, llyfrynau ac ati.
- 2.5.4 Pan fo angen fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer dogfennau/cyhoeddiadau, bydd y ddwy fersiwn yn cael eu cyhoeddi a'u dosbarthu ar yr un pryd â'i gilydd. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un safon â'i gilydd a byddant yn cael eu harddangos gyda'i gilydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd pob fersiwn yn cynnwys datganiad yn esbonio bod y ddogfen ar gael hefyd yn yr iaith arall.
- 2.5.5 Mae templedi'r Coleg ar gael yn ddwyieithog, gan sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal.
- 2.5.6 Caiff staff y Coleg a rhanddeiliaid allanol arweiniad ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog a fersiynau Cymraeg/Saesneg ar wahân.
- 2.5.7 Mae holl ffurflenni'r Coleg ar gael yn ddwyieithog.
- 2.5.8 Yn achos yr holl ddeunyddiau ysgrifenedig ac electronig sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd, cânt eu cyhoeddi'n ddwyieithog, neu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Unwaith eto, bydd y Coleg yn sicrhau bod fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal mewn deunyddiau o'r fath.
- 2.5.9 Cyhoeddir holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd y Coleg yn ddwyieithog, a chânt eu cynllunio mewn modd a fydd yn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- 2.5.10 Mae holl ddeunyddiau arddangos y Coleg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu'n ddwyieithog, a byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.
- 2.5.11 Mae holl hysbysiadau a hysbysebion cyhoeddus y Coleg yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg, a byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, ansawdd, maint ac amlygrwydd.
- 2.5.12 Caiff hysbysiadau ar y cyfryngau cymdeithasol eu postio yn y Gymraeg a'r Saesneg, neu'n ddwyieithog, a byddant yn trin y ddwy iaith yn gyfartal.

2.6 Darparu Gwasanaethau: Arwyddion

- 2.6.1 Pan fo'r coleg yn codi arwydd newydd neu'n adnewyddu arwyddion (yn cynnwys arwyddion dros dro), bydd unrhyw destun ar yr arwydd yn cael ei arddangos yn y Gymraeg, ac os caiff yr un testun ei arddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg, ni fydd y testun Cymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.
- 2.6.2 Pan fo'r coleg yn codi arwydd newydd neu'n adnewyddu arwyddion (yn cynnwys arwyddion dros dro), a phan fo'r arwyddion hynny'n cyfleu'r un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, bydd y testun Cymraeg yn cael ei osod fel ei fod yn fwy tebygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
- 2.6.3 Bydd y coleg yn sicrhau bod y testun Cymraeg a nodir ar arwyddion yn gywir o ran ei ystyr a'i fynegiant.

3. Gweithrediadau Mewnol

3.1 Gweithrediadau Mewnol: Staffio a Recriwtio

- 3.1.1 Mae'r Coleg yn cynnal archwiliad o siaradwyr Cymraeg ym mhob un o'r meysydd Addysgu a Dysgu a Chymorth Busnes, ac mae'n tynnu sylw at feysydd lle nodir bod cael staff â sgiliau Cymraeg naill ai'n "Hanfodol" neu'n "Ddymunol" mewn perthynas â natur y swydd a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.
- 3.1.2 Ddwywaith y flwyddyn, mae'n ofynnol i holl weithwyr y Coleg hunanasesu eu sgiliau Cymraeg o ran Siarad, Gwrando, Darllen ac Ysgrifennu.
- 3.1.3 Yn achos penodiadau i rôl lle ystyrir bod y gallu i siarad neu ysgrifennu Cymraeg yn sgîl hanfodol yn y swydd-ddisgrifiad, bydd lefel hyfedredd yr ymgeiswyr yn cael ei phrofi yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ystod y cyfweiliad.
- 3.1.4 Yn achos cyfweiliadau ar gyfer swyddi yr hysbysebwr bod y Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, dylid eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Pan fo modd, dylai holl aelodau'r panel cyfweld fod yn siaradwyr Cymraeg. Os bydd cymysgedd o staff Cymraeg a di-Gymraeg ar y panel, dylid defnyddio cyfleusterau cyfieithu ar y pryd drwy gydol y cyfweiliad.

3.2 Gweithrediadau Mewnol: Sefydlu, Datblygu Staff a Hyfforddi Staff

- 3.2.1 Bydd pob aelod newydd o staff yn mynd trwy Sesiwn Sefydlu Gychwynnol. Bydd y sesiwn hon yn cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg a Diwylliant y Coleg, trosolwg o Safonau'r Gymraeg, sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg ac arweiniad ar ble i ddod o hyd i gymorth ar Borth y Staff mewn perthynas â gwasanaethau cyfieithu a phopeth yn ymwneud â'r Gymraeg yn y coleg.
- 3.2.2 Dylai'r holl staff gwblhau'r modiwl hyfforddi Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- 3.2.3 Anogir yr holl staff i ymgymryd â hyfforddiant yn y Gymraeg. Mae gan y staff hawl i fynychu dosbarthiadau Cymraeg yn rhad ac am ddim, o lefel dechreuwyr hyd at lefel uwch. Bydd y Tîm AD yn llunio polisi fel arweiniad i bob rheolwr llinell i alluogi'r staff i fynychu dosbarthiadau yn ystod oriau gwaith.
- 3.2.4 Anogir y staff addysgu i ddilyn cyrsiau Cymraeg wedi'u teilwra (e.e. prosiect Cymraeg Gwaith) a fydd yn cynnwys elfen fentora a hyfforddi.
- 3.2.4 Dylid trafod cynnydd a datblygiad sgiliau Cymraeg staff unigol fel rhan o'r Cynllun Datblygu Personol.
- 3.2.5 Bydd yr holl hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff ar gael yn y Gymraeg, yn cynnwys:
- Ymwybyddiaeth o iaith
 - Iechyd a diogelwch
 - Cydraddoldeb ac amrywiaeth
 - Diogelu
- 3.2.6 7 Ar gyfer Arweinwyr a Rheolwyr, bydd yr hyfforddiant canlynol ar gael yn y Gymraeg

- Recriwtio a chyfweld
- Rheoli perfformiad
- Cwynion a gweithdrefnau disgyblu
- Defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd a chyfweiliadau

3.2.7 Pan ddefnyddir darparwr allanol i ddarparu hyfforddiant mewnol, bydd y Coleg yn ystyried pa mor bwysig a pherthnasol yw darparu'r hyfforddiant yn y Gymraeg (os yw'r rhesymau'n wahanol i'r rhai a restrir uchod). Fel rhan o'r broses dendro, ac yn unol â gofynion Safonau 80-84, bydd y Coleg yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â gallu trydydd parti i ddarparu gwasanaethau hyfforddi yn y Gymraeg, a gwneir pob ymdrech i gynnal cwrs cyfatebol yn y Gymraeg. Pan fo angen, bydd y darparwr allanol yn gyfrifol am drefnu a thalu am wasanaeth cyfieithu, ynghyd â darparu hwyluswyr sy'n siarad Cymraeg pan fo angen.

3.2.8 Bydd y coleg yn darparu adnoddau/canllawiau hyfforddi i'r staff ar bob lefel er mwyn eu cynorthwyo i roi Safonau'r Gymraeg ar waith yn llwyddiannus.

3.3 Gweithrediadau Mewnol: Cyfieithu

3.3.1 Mae gwasanaeth cyfieithu mewnol y Coleg ar gael i'r holl staff, a rhoddir cyngor iddynt ynghylch sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn yn briodol.

3.4 Gweithrediadau Mewnol: Delio â chwynion

3.4.1 Mae'r coleg yn caniatáu i bob aelod o staff - (a) gwneud cwynion yn y Gymraeg, a (b) bydd y coleg yn ymateb yn y Gymraeg i unrhyw gŵyn a wneir amdano ef neu amdani hi.

3.4.2 Bydd unrhyw ddogfen sy'n nodi gweithdrefnau'r coleg ar gyfer gwneud cwynion yn datgan y gall pob aelod o staff wneud y canlynol -

(a) gwneud cwyn yn y Gymraeg,

(b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef neu amdani hi yn y Gymraeg;

a bydd y coleg yn hysbysu pob aelod o staff ynglŷn â'r hawl honno

Bydd unrhyw gŵyn yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn dilyn y gweithdrefnau a nodir yn 3.4.

4. Llundio Polisiâu

4.1 Llundio Polisiâu: Polisiâu a Mentrau Newydd

4.1.1 Mae'r Coleg yn monitro polisiâu a mentrau newydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg, a'u bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

4.1.2 Craffir ar bolisiâu a mentrau newydd fel rhan o'r broses Asesu Effaith, er mwyn asesu eu goblygiadau ieithyddol posibl ac er mwyn sicrhau na fydd yna unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

4.1.3 Dylai'r holl staff sy'n gyfrifol am lunio polisiâu a mentrau newydd fod yn ymwybodol o'r Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg a'r gofynion o ran cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

4.1.4 Wrth lunio polisiau a mentrau newydd, bydd y Coleg yn ymdrechu i hyrwyddo, annog a datblygu'r iaith Gymraeg a'i hethos.

4.2 Llunio Polisiau: Tendrau

4.2.1 Pan fydd y Coleg yn gwahodd tendrau ar gyfer contractau penodol, caiff ystyriaethau'n ymwneud â thueddiadau a gofynion ieithyddol eu cynnwys a'u cyfleu ym manyleb y tendr; bydd y gwaith o fonitro is-gontractwyr yn cynnwys cyfeirio at eu perfformiad mewn perthynas ag ystyriaethau'r Gymraeg.

4.2.2 Os bydd y Coleg yn derbyn tendr yn y Gymraeg, bydd trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer y tendrwyr hynny sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweliad neu gyflwyniad.

4.2.3 Mae'r Coleg yn hyrwyddo'r Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg gyda rhanddeiliaid a sefydliadau eraill nad ydynt yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a bydd yn eu hannog i fabwysiadu ein prosesau cydymffurfio.

4.2.4 Os bydd y Coleg yn cymryd rhan mewn trefniadau a wnaed gan drydydd parti, bydd yn ceisio cadarnhau bod unrhyw gontractau o'r fath yn cyd-fynd â'n Polisi ar Ddefnyddio'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg.

5. Monitro ac Adrodd

5.1 Mae'r Coleg yn cynnal archwiliad rheolaidd i weld a gydymffurfir â Safonau'r Gymraeg. Dylai Cyfarwyddwyr a Rheolwyr ysgwyddo cyfrifoldeb dros weithredu Safonau'r Gymraeg yn lleol.

5.2 Cyfrifoldeb y Pennaeth Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol a'r Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd yw rhoi cyngor ac arweiniad ynghylch dilyn Polisi'r Coleg o ddydd i ddydd mewn perthynas â Defnyddio'r Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

5.3 Pennaeth y Coleg sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros yr uchod.

5.4 Mae Grŵp Llywio'r Gymraeg i'w gael o fewn y Coleg. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r meysydd Cwricwlwm a Chymorth Busnes ledled y Coleg. Caiff Grŵp Llywio'r Gymraeg ei gadeirio gan y Pennaeth Dwyieithrwydd a Dysgu Cymunedol, ac mae'n cyfarfod unwaith y tymor. Mae'r Grŵp hwn yn monitro perfformiad y Coleg ar sail pob un o Safonau'r Gymraeg. Mae aelodau Grŵp Llywio'r Gymraeg yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros ledaenu mentrau a chanllawiau ar draws pob maes.

5.5 Bydd y Coleg yn cynnal ymarfer 'Siopwr Dirgel' mewnol, a bydd yr ymarfer hwn yn rhan o'r gwaith mewnol o fonitro cydymffurfiaeth a chynnydd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Bydd yr ymarfer yn cael ei gynnal bob tymor. Aelodau o Dîm Cymraeg y Coleg a fydd yn arwain y gweithgaredd hwn. Bydd canlyniadau'r gweithgareddau'n cael eu cyflwyno gerbron Grŵp Llywio'r Gymraeg.

5.6 Os deuir o hyd i unrhyw achos o dorri'r safonau yn ystod y broses archwilio, bydd hysbysiad diffyg cydymffurfio'n cael ei gyflwyno. Bydd yr hysbysiad yn cael ei anfon at y rheolwr perthnasol, ynghyd â'r Pennaeth a'r Is-bennaeth. Bydd hysbysiadau diffyg cydymffurfio yn nodi bod y Safon wedi'i thorri, byddant yn nodi pryd a sut y daethpwyd o hyd i'r tramgwydd, a hefyd byddant yn nodi pa gamau y dylid eu cymryd, gan bwy ac erbyn pa ddyddiad.

- 5.7 Bydd y Rheolwr Datblygu Dwyieithrwydd yn llunio Adroddiad Blynyddol ar weithgarwch a pherfformiad y Coleg mewn perthynas â'r Hysbysiad Cydymffurfio. Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar wefan y Coleg ac ar fewnwyd y staff.

6. Hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg

- 6.1 Cyfrifoldeb y Tîm AD, gyda chymorth Tîm Safonau'r Gymraeg a'r Tîm Marchnata, yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ymhlith staff yn y Coleg.
- 6.2. Cyfrifoldeb y Timau Addysgu a Dysgu a'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr, gyda chymorth gan Dîm Safonau'r Gymraeg a'r Tîm Marchnata, yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ymhlith myfyrwyr yn y Coleg.
- 6.3 Cyfrifoldeb y Tîm Gwasanaethau Myfyrwyr, Tîm Safonau'r Gymraeg a'r Tîm Marchnata yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yn y Coleg.
- 6.4 Cyfrifoldeb y Tîm Dysgu Seiliedig ar Waith, Tîm Safonau'r Gymraeg a'r Tîm Marchnata yw hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ymhlith prentisiaid a chyflogwyr yn y Coleg.
- 6.5 Anogir yr holl staff i ddangos eu gallu i siarad Cymraeg, naill ai fel siaradwyr rhugl neu fel dysgwyr, trwy wisgo bathodyn neu laniard a thrwy arddangos y logo oren 'Cymraeg Gwaith' yn eu llofnod e-bost.
- 6.6 Bydd y Coleg yn creu calendr o ddigwyddiadau i hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Bydd y Coleg hefyd yn cydnabod cyfraniad staff Cymraeg eu hiaith a staff sy'n dysgu Cymraeg (e.e. Gwobrau Blynyddol). Ymhellach, cynhelir gweithgareddau sy'n dod â siaradwyr Cymraeg at ei gilydd i gymdeithasu yn y Gymraeg (e.e. Bore Coffi, Clwb Cinio, Cynllun Bydi Cymraeg).